**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1495
Ein cyf/Our ref: HIDCC/10790/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

20fed Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr yn sgil y ddeiseb y mae eich Pwyllgor wedi ei derbyn, yn gofyn am greu strwythur o fewn y Senedd i wahardd gwleidyddion a gafwyd yn euog o dwyll bwriadol.

Efallai eich bod yn gwybod bod Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd wrthi'n cynnal ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol, ac mae cwmpas yr ymchwiliad hwnnw yn cynnwys:

> *"casglu tystiolaeth ar rinweddau cyflwyno mecanweithiau pellach ar gyfer anghymhwyso Aelodau ac ymgeiswyr y ceir eu bod wedi dichellu'r etholwyr yn fwriadol, gan gynnwys drwy broses farnwrol annibynnol."*

Fel rhan o'r ymchwiliad, cynhaliodd Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ym mis Medi eleni, ac sydd wedi cynnal sesiynau tystiolaeth gyda nifer o dystion arbenigol. Yn ogystal â hynny, mynychais sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor yn gynharach y mis hwn i nodi rhai o safbwyntiau dros dro'r Llywodraeth ar atebolrwydd Aelodau unigol.

Rwy'n deall bod Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd yn bwriadu cwblhau ei waith ac adrodd arno ym mis Ionawr 2025, ac - fel y dywedais yn fy ngohebiaeth â'r Pwyllgor hwnnw - mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at yr adroddiadau hynny er mwyn i'n gwaith allu ystyried canlyniadau ac argymhellion yr ymchwiliad.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.